Uned 3

# Paratoi ymateb ysgrifenedig

Ar ôl i ti astudio'r adran hon, byddi di'n

- gallu cyflwyno a chyfuno gwybodaeth am sawl testun yn drefnus
- gallu cyflwyno gwybodaeth yn drefnus gan gyfeirio at destunau addas a dyfynnu os bydd angen
- gallu crynhoi'r prif bwyntiau a dod i gasgliad mewn paragraff clo effeithiol.

**Geirfa**

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| paragraff clo | *concluding paragraph* |
| effeithiol | *effective* |
| cynllunio | *to plan* |
| un peth yn arwain at y llall | *one thing leading to another* |
| dyfynnu | *to quote* |
| pwysleisio | *to emphasise* |
| trobwynt/iau | *turning point/s* |
| uchafbwynt/iau | *climax/es* |
| delwedd/au | *image/s* |
| canolbwyntio | *to concentrate* |
| argraff/iadau | *impression/s* |

Yn uned 2 rwyt ti wedi dysgu sut i ymateb ar lafar. Yn yr uned hon, rwyt ti'n mynd i ddysgu sut i ymateb yn ysgrifenedig. Bydd y pethau rwyt ti wedi eu dysgu yn unedau 1 a 2 yn ddefnyddiol iawn i ti.



Canolfan Peniarth
Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Pan rwyt ti'n ymateb yn ysgrifenedig, mae'n rhaid i ti

- gynllunio'n ofalus – ydy un peth yn arwain at y llall yn drefnus?
- cyflwyno gwybodaeth a mynegi barn
- rhoi rhesymau a dyfynnu i gefnogi barn
- dod i gasgliad.

Yn aml, mae trafod cerdd yn gallu arwain at ymateb synoptig. Dyma rai geiriau ac ymadroddion defnyddiol os wyt ti'n trafod cerdd.

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| Yn fy marn i, prif thema'r gerdd ydy ... | *In my opinion, the main theme of the poem is …* |
| Yn ystod y cwrs, astudiais i sawl cerdd ar yr un thema. | *During the course I studied several poems on the same theme.* |
| Yn ystod y cwrs, rwy wedi darllen sawl cerdd ar y thema hon. | *During the course, I have read several poems on this theme.* |
| Mae'r gerdd yn dechrau gyda ... | *The poem starts with …* |
| Mae'r bardd yn dechrau gyda ... | *The poet starts with …* |
| Mae'r bardd yn awgrymu bod ... | *The poet suggests that …* |
| Ym mhennill cyntaf y gerdd, mae'r bardd yn ... | *In the first verse of the poem, the poet…* |
| Yn ail bennill *[enw'r gerdd]* mae'r bardd yn pwysleisio ... | *In the second verse of [the name of the poem] the poet emphasises…* |
| Mae'r bardd yn mynd ymlaen i ... | *The poet goes on to …* |
| Yn y pennill olaf, mae *[enw'r bardd]* yn dweud ... | *In the last verse [the name of the poet] says …* |
| Uchafbwynt y gerdd ydy ... | *The climax of the poem is …* |
| Mae trobwynt y gerdd yn y trydydd pennill. | *The turning point of the poem is in the third verse.* |
| Mae'r bardd yn awgrymu bod ... | *The poet suggests that …* |
| Mae'r bardd yn dweud… *[dyfyniad]* | *The poet says… [quote]* |

2



Canolfan Peniarth
Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

# Uned 3

Mae'r rhestr yn hir ond paid â phoeni. Dewisa'r ymadroddion gorau i ti. Dysga nhw'n dda. Dysga ddau neu dri arall.

Mae trafod iaith ac arddull cerdd yn gallu arwain at ymateb synoptig. Dyma eiriau ac ymadroddion defnyddiol i ti.

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| Mae'r bardd yn dangos ei deimladau yn yr iaith mae e'n ei defnyddio. | *The poet shows his feelings in the language he uses.* |
| Mae'r bardd yn defnyddio ... | *The poet uses …* |
| Mae hyn yn effeithiol iawn achos ... | *This is very effective because …* |
| Yn fy marn i, mae hyn yn effeithiol achos ... | *In my opinion, this is effective because …* |
| Mae'r bardd yn ailadrodd er mwyn pwysleisio ... | *The poet uses repetition in order to emphasise …* |
| Mae delweddau effeithiol yn y gerdd, e.e… *[dyfyniad]* | *There are effective images in the poem, e.g… [quote]* |
| Mae llawer o gymariaethau da yn y gerdd, e.e… *[dyfyniad]* | *There are many good comparisons in the poem, e.g… [quote]* |
| Mae trosiad ardderchog yn y llinell… *[dyfyniad]* | *There is an excellent example of imagery in line… [quote]* |

3



Canolfan Peniarth
Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Rhestr hir arall o ymadroddion! Dim ots achos rwyt ti'n gwybod llawer o'r geiriau'n barod. Dysga dair brawddeg dda i drafod iaith ac arddull. Hawdd? Dysga dair brawddeg arall.

Wrth gwrs bydd rhaid i ti gymharu'r gerdd â thestunau eraill. Dyma fwy o eiriau ac ymadroddion defnyddiol i ti.

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| Mae neges y ddau fardd yn debyg achos ... | *The message of the two poets is similar because …* |
| Mae neges y beirdd yn wahanol achos mae *[enw'r bardd]* yn dweud ... ond mae *[enw'r bardd arall]* yn dweud ... | *The poets' message is different because [name of poet] says … but [name of other poet] says …* |
| Mae'r ddau fardd yn cytuno bod ... | *The two poets agree that …* |
| Mae'r bardd a *[Saunders Lewis]* yn cyfeirio at ... | *The poet and [Saunders Lewis] refer to …* |
| Mae'r awduron yn poeni am ... | *The authors are worried about …* |
| Mae pwnc y ddau destun yn debyg ond mae'r neges yn wahanol. | *The topic of the two texts is similar but the message is different.* |
| Mae'r ddau fardd yn defnyddio geiriau caled er mwyn pwysleisio ... | *The two poets use hard sounding words in order to emphasise …* |
| Mae *[enw'r bardd]* yn dangos ei deimladau drwy ddefnyddio ansoddeiriau, e.e. .... ond mae *[enw'r bardd arall]* yn dangos ei dristwch drwy ysgrifennu'n foel iawn, heb ddisgrifiadau. | *[name of poet] shows his feelings by using adjectives e.g. … but [name of the other poet] shows his sadness by writing in a bare manner, without descriptions.* |

4

Mwy o ymadroddion! Wyt ti'n gwybod rhai ohonyn nhw'n barod? Dysga dri neu bedwar ymadrodd newydd bob dydd.



Canolfan Peniarth
Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

# Uned 3

Mewn traethawd ysgrifenedig, dylet ti ddyfynnu i gefnogi dy bwynt ond **cofia, rhaid gwneud yn siwr bod y dyfyniad yn hollol gywir.** Hefyd, mae'r dechrau a'r diwedd yn bwysig iawn.

Mae'n rhaid i ti gael paragraff agoriadol da. Dyma rai ymadroddion defnyddiol. Dysga nhw.

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| Mae ... yn thema bwysig yn y cwrs Cymraeg. | *… is an important theme in the Welsh course.* |
| Mae llawer o enghreifftiau o ... yn y cwrs Cymraeg ond dw i eisiau canolbwyntio ar ... | *There are many examples of … in the Welsh course but I want to concentrate on …* |
| Mae elfennau o ... i'w gweld yn ... a ... | *There are elements of … to be seen in … and …* |
| Mae sawl elfen debyg o fewn y thema, e.e… | *There are several similar elements within the theme, e.g…* |
| Yr elfennau mwyaf tebyg yw ... | *The most similar elements are …* |
| Yr elfennau mwyaf gwahanol yw ... | *The elements that are most different are …* |
| I ddechrau, hoffwn gymharu ... | *To start, I'd like to compare …* |
| Wedyn, hoffwn drafod ... | *Then I'd like to discuss …* |
| Hoffwn ystyried y gwahanol fathau o *[dristwch/hapusrwydd/cariad...]* | *I would like to consider the different types of [sadness/happiness/love …]* |
| Yn gyntaf, hoffwn ystyried *[dristwch/hapusrwydd/cariad...]* yn y cerddi ac wedyn hoffwn drafod .... | *Firstly, I'd like to consider [sadness/happiness/love …] in the poems and then I'd like to discuss …* |

5

Wyt ti'n dechrau cofio'r geiriau nawr? Dysga ddefnyddio geirfa asesu synoptig mewn ymadroddion a brawddegau. Wedyn dysga fwy.



Canolfan Peniarth

Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Mae'r paragraff olaf hefyd yn bwysig. Dyma'r peth diwethaf bydd yr arholwr yn ei ddarllen cyn rhoi marc i ti. Mae'n bwysig i ti wneud argraff arno!

Dyma rai ymadroddion defnyddiol. Dysga nhw.

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| Mae llawer o gyfeiriadau at ... yn y testunau... | *There are many references to … in the texts …* |
| I orffen, hoffwn ddweud... | *To finish, I'd like to say …* |
| I gloi, hoffwn bwysleisio bod thema'r ddau destun/tri thestun yn debyg iawn ond bod y ffordd mae'r awduron yn ymdrin â'r pwnc yn wahanol achos ... | *To conclude, I'd like to emphasise that the theme of both texts/the three texts is very similar but that the way the authors deal with the subject is different because…* |
| Y prif wahaniaeth rhwng y gerdd a'r stori felly yw ... | *The main difference between the poem and the story, therefore, is …* |
| Wedi pwyso a mesur y ffordd y mae'r awduron yn trin y thema, rwy wedi dod i'r casgliad mai ... | *After weighing up the way the authors deal with the theme, I've come to the conclusion that …* |
| Rwy'n credu bod neges y ddau/tri awdur yn debyg ond bod eu dull o gyflwyno'r neges yn wahanol. Rwy'n dweud hyn achos ... | *I believe that the message of the two/three authors is similar, but the way they convey the message is different. I say this because…* |
| Mae'r gwahaniaeth yn bwysig achos... | *The difference is important because…* |
| Yn fy marn i y gerdd/stori/paragraff mwyaf effeithiol yw ... achos... | *In my opinion, the most effective poem/story/paragraph is … because…* |

6

Dysga dy dri hoff ymadrodd di i gloi traethawd. Wedyn dysga dri arall.

# Tasgau

Mae enghreifftiau o baragraffau agoriadol, canol a chlo ar ddiwedd yr uned. Trafoda'r paragraffau gydag aelodau eraill y grŵp. Nodwch y cryfderau a meddyliwch sut i wella'r gwaith.

Nawr, mae'n rhaid i ti ddefnyddio popeth rwyt ti wedi ei ddysgu i ateb cwestiwn ysgrifenedig. Mae'n rhaid i ti ysgrifennu traethawd ar '**Mae tristwch yn thema bwysig yn y gerdd ... (dewiswch unrhyw gerdd heblaw 'Gail fu farw'). Cyfeiriwch at unrhyw lenyddiaeth neu lunyddiaeth sy'n ymdrin â'r thema hon'**

Cofia fod gwahanol fath o dristwch yn bosibl, e.e. os bydd rhywun yn marw. Gwna restr yma.

- 
- 
- 
- 
- 

Meddylia am ble yn y cwrs mae enghreifftiau o dristwch. Defnyddia'r gridiau neu'r diagram Venn sy ar ddiwedd yr uned.

Ar ôl i ti lenwi gridiau 1 – 3 neu'r diagram Venn, bydd angen i ti feddwl am gymharu. Beth am baratoi map meddwl? Mae rhai gwag ar ddiwedd yr uned.

Wyt ti'n cofio'r ymadroddion ddysgaist ti yn uned 1 a 2? Edrycha arnyn nhw eto os oes angen. Ysgrifenna'r rhai rwyt ti eisiau eu defnyddio yma.

- 
- 
- 
- 
- 
- 



Canolfan Peniarth

Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

# Uned 3

Nawr rwyt ti’n gwybod beth rwyt ti eisiau ei ddweud ond mae’n rhaid cynllunio’n ofalus er mwyn rhoi trefn ar dy syniadau.  Mae’n rhaid i bob syniad arwain ymlaen at y nesaf yn naturiol.  Mae dy syniadau di yn y gridiau a’r map meddwl yn barod.  Byddan nhw’n help i ti wneud cynllun manwl.  Efallai bydd y siart yn yr atodiad yn help i ti fod yn drefnus.  Mae bocs i bob paragraff.  Penderfyna di sawl bocs fydd ei angen.



Canolfan Peniarth

Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Yn y traethawd dylet ti

- ddweud ym mha destunau mae tristwch
- cymharu’r tristwch yn y gwahanol destunau a rhoi rhesymau dros dy farn
- dyfynnu i gefnogi dy farn
- dweud sut mae’r awdur yn defnyddio iaith ac arddull i ddangos y tristwch
- tynnu’r llinynnau ynghyd a dod i gasgliad.

Ar ôl i ti orffen, rhoia dy draethawd i dy bartner. Darllena di draethawd dy bartner. Gwerthuswch (*Evaluate*) waith eich gilydd. Ydych chi wedi ysgrifennu rhywbeth am bob un o’r pum pwynt bwled uchod? Siaradwch am y pethau da yn y ddau draethawd. Siaradwch hefyd am y pethau rydych chi eisiau gwneud yn well y tro nesaf. Llenwch y grid isod.

| Y pethau da yn fy nhraethawd | Y pethau dw i eisiau gwneud yn well |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Nawr, edrycha eto ar dy draethawd a gwna’r pethau rwyt ti wedi eu rhestri uchod.



Canolfan Peniarth
Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

**Gweithgareddau dysgu geirfa ac ymadroddion**

Ras rhwng y grwpiau.  Pa grŵp fydd y cyntaf i lenwi'r bylchau i gyd yn gywir?

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| | *climax/es* |
| paragraff clo | |
| | *effective* |
| | *image/s* |
| argraff/iadau | |
| | *one thing leading to another* |
| | *to concentrate* |
| pwysleisio | |
| | *to plan* |
| dyfynnu | |
| | *turning point/s* |

1



Canolfan Peniarth
Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

2

**Gêm drac**

Gweithia mewn grŵp. Fel grŵp meddyliwch am gerdd rydych chi wedi ei hastudio. Rhaid i chi daflu'r dis a gorffen y frawddeg sy yn y bocs ble rydych chi'n glanio. Rhaid i'r frawddeg fod am y gerdd rydych chi wedi ei dewis.

| | | |
|---|---|---|
| **1** Yn ystod y cwrs, rwy wedi darllen sawl cerdd ar y thema ... | **2** Mae'r bardd yn awgrymu bod ... | **3** Yn fy marn i, prif thema'r gerdd ydy ... |
| **6** Mae *[enw'r bardd]* yn dweud bod ... | **5** Yn ail bennill *[enw'r gerdd]* mae'r bardd yn pwysleisio ... | **4** Yn ystod y cwrs, astudiais i sawl cerdd ar yr un thema, sef ... |
| **7** Mae'r gerdd yn dechrau gyda ... | **8** Mae trobwynt y gerdd yn y ...pennill. | **9** Uchafbwynt y gerdd ydy ... |
| **12** Mae'r bardd yn dechrau gyda ... | **11** Mae'r bardd yn dweud *[dyfyniad]* | **10** Yn y pennill olaf, mae' *[enw'r bardd]* yn dweud ... |
| **13** Mae'r bardd yn mynd ymlaen i ... | **14** Ym mhennill cyntaf y gerdd, mae'r bardd yn ... | **15** Mae'r bardd yn pwysleisio... |

3

Mae'r ymadroddion yn y golofn Saesneg wedi'u cymysgu.  Tynna linell i ddangos pa ymadrodd Cymraeg sy'n cyfateb â'r ymadrodd Saesneg.  Neu, os wyt ti eisiau, torra'r ymadroddion allan a chyfateba'r Gymraeg a'r Saesneg.

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| Mae *[enw'r bardd]* yn dangos ei deimladau drwy ddefnyddio ansoddeiriau, e.e. .... ond mae *[enw'r bardd arall]* yn dangos ei dristwch drwy ysgrifennu'n foel iawn, heb ddisgrifiadau. | *This is very effective because …* |
| Mae delweddau effeithiol yn y gerdd, e.e. *[dyfyniad]* | *In my opinion, this is effective because …* |
| Mae hyn yn effeithiol iawn achos ... | *The poet shows his feelings in the language he uses.* |
| Mae'r bardd yn ailadrodd er mwyn pwysleisio ... | *The poet uses …* |
| Mae'r bardd yn dangos ei deimladau yn yr iaith mae e'n ei defnyddio. | *The poet uses repetition in order to emphasise …* |
| Mae'r bardd yn defnyddio ... | *The two poets use hard sounding words in order to emphasise …* |
| Mae'r ddau fardd yn defnyddio geiriau caled er mwyn pwysleisio ... | *There are effective images in the poem, e.g. [quote]* |
| Yn fy marn i, mae hyn yn effeithiol achos ... | *[name of poet] shows his feelings by using adjectives e.g. … but [name of the other poet] shows his sadness by writing in a bare manner, without descriptions.* |



Canolfan Peniarth

Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

4

Gweithia mewn grŵp.  Bydd angen dis arnoch chi.  Cymerwch dro i daflu'r dis ac i gyfieithu'r ymadroddion, e.e. bydd rhaid i'r myfyriwr sy'n taflu 3 gyfieithu 'the two poets agree that...'

1. The message of the two poets is similar because …
2. The poets' message is different because [name of poet] says … but [name of other poet] says …
3. The two poets agree that …
4. The poet and [Saunders Lewis] refer to …
5. The authors are worried about …
6. The topic of the two texts is similar but the message is different.

5

**Gêm drac**

Rhaid i ti daflu'r dis a gorffen y frawddeg sy yn y bocs ble rwyt ti'n glanio.

| | | |
|---|---|---|
| **1** Mae elfennau o ... i'w gweld yn ... a ... | **2** Yr elfennau mwyaf gwahanol yw ... | **3** Hoffwn ystyried y gwahanol fathau o *[dristwch/ hapusrwydd/cariad...]* |
| **6** Mae hyn yn debyg i .... | **5** Yn gyntaf, hoffwn ystyried *[dristwch/hapusrwydd/cariad...]* yn y cerddi ac wedyn hoffwn drafod .... | **4** Mae sawl elfen debyg o fewn y thema, e.e… |
| **7** Mae llawer o enghreifftiau o ... yn y cwrs Cymraeg ond dw i eisiau canolbwyntio ar ... | **8** Hoffwn ystyried y gwahanol fathau o *[dristwch/hapusrwydd /cariad...]* | **9** Yr elfennau mwyaf tebyg yw ... |
| **12** I ddechrau, hoffwn gymharu ... | **11** Y pethau mwyaf gwahanol … | **10** Wedyn, hoffwn drafod ... |



Canolfan Peniarth

Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

6

**Cyfieithu**

1. I think the message of the two poets is similar.
2. The main difference between the poems therefore is the message.
3. I have come to the conclusion that the poem and story are very different.
4. I'd like to emphasise that the way they convey their message is different.
5. To conclude, I would like to say that the two poems are very similar.
6. The main difference is the way the poets deal with the theme.
7. I say this because there is sadness in the two poems.
8. The difference in the way the two poets convey responsibility is interesting.



Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

**Enghreifftiau o baragraffau agoriadol seiliedig ar Gail fu farw.**

Mae llawer o dristwch yn y gerdd 'Gail fu farw' gan Nesta Wyn Jones. Mae llawer o dristwch mewn pethau eraill rydw i wedi astudio hefyd, er enghraifft, yn 'Solomon a Gaenor' a 'Hedd Wyn' mae tristwch pan mae pobl yn cael eu gwahanu. Mae Solomon a Gaenor yn cael eu gwahanu pan mae Gaenor yn disgwyl babi ac mae Hedd Wyn yn cael ei wahanu oddi wrth ei deulu a'i ffrindiau pan mae e'n mynd i'r rhyfel.

Yn ystod y cwrs, mae llawer o enghreifftiau o dristwch. Rydw i wedi astudio llawer o gerddi gyda tristwch. Mae tristwch yn Siwan hefyd.

Dw i'n trin a thrafod tristwch achos mae tristwch yn 'Gail fu farw'. Rydw i'n astudio llawer o gerddi a ffilmiau am dristwch yn y dosbarth gyda'r athro a ffrindiau. Gwelais i 'Hedd Wyn' yn y dosbarth. Rwy'n meddwl ei fod yn enghraifft da o dristwch achos mae'n dangos pobl yn marw yn y rhyfel.

Mae tristwch yn thema yn y gerdd hon ac mae hefyd yn thema bwysig iawn yn y cwrs Cymraeg. Mae'r bardd, Nesta Wyn Jones, yn disgrifio'r bywyd trist a diwerth gafodd Gail. Mae tristwch hefyd achos mae hi'n marw. Mae tristwch yn 'Hedd Wyn', 'Siwan' a'r storïau hefyd. Yn gyntaf hoffwn drafod y pethau sy'n debyg am y tristwch. Un peth sy'n gyffredin yn y tri yw bod pobl yn marw ...



Canolfan Peniarth

Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

**Enghreifftiau o baragraffau o ganol atebion seiliedig ar 'Gail fu farw'.**

Mae llawer o dristwch yn y gerdd 'Gail fu farw' achos doedd neb eisiau hi hyd yn oed pan oedd yn blentyn.
'Y ferch lwyd
Fu'n eitha niwsans i bawb
O'r dechrau.'
Doedd neb eisiau'r ferch yn y gerdd 'Y ferch ar y cei yn Rio' gan T H Parry-Williams chwaith ac mae hyn yn gwneud y ddwy gerdd yn debyg, ond mae'r rheswm pam does neb eisiau'r merched yn wahanol. Doedd Wendy ddim eisiau Robin a doedd Non ddim eisiau Jac yn storïau Mihangel Morgan ac mae hyn yn drist iawn.
Mae tristwch yn 'Gail fu farw' hefyd achos mae Gail yn marw. Mae llawer o dristwch achos bod pobl yn marw yn y pethau eraill rydw i wedi astudio hefyd. Mae pobl yn marw yn y rhyfel yn Hedd Wyn. Mae Gwilym Brewys yn cael ei grogi yn 'Siwan'. Mae gŵr Neli'n marw yn y stori 'Derfydd Aur' ac mae Solomon yn marw yn 'Solomon a Gaenor'. Ond mae rhywbeth yn wahanol am y tristwch ym mhob un....

Yn y dosbarth dw i'n astudio'r ddrama 'Siwan'. Dw i'n dwli ar y ddrama achos mae Llywelyn yn caru Siwan. Mae Siwan yn caru Gwilym Brewys ac mae Gwilym yn marw. Mae'n drist.
Hefyd, gwelais i'r ffilm 'Solomon a Gaenor' yn y dosbarth. Mae'r ffilm yn dangos cariad rhwng Solomon a Gaenor ac mae'n drist achos mae Solomon yn marw.
Gwelais i 'Hedd Wyn' yn y dosbarth. Dwi'n meddwl bod y ffilm yn dangos tristwch achos mae'n dangos pobl yn marw yn y rhyfel.

Yn 'Gail fu farw' mae tristwch achos mae Gail yn colli bywyd ac yn marw. Rydw i wedi astudio 'Siwan' ac mae tristwch yno achos mae Llywelyn yn colli cariad ac mae Gwilym Brewys yn colli bywyd ac yn marw.



Canolfan Peniarth
Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Mae tristwch yn ‘Diwrnod y gêm genedlaethol’ pan mae Cymru’n colli gêm bêl-droed ac mae tristwch yn ‘Wennol fach’ gan Nesta Wyn Jones achos mae hi wedi colli cariad, ‘Mynd a wnaeth fy annwyl gariad.’ Rŵan, mae hi ar ei phen ei hun, ‘Minnau yma wrthyf f’hunan’.

Gwelir tristwch yn y gerdd hon achos mae Gail wedi cael bywyd trist iawn. Yn blentyn, cafodd ei hanfon o le i le fel parsel ac yn y diwedd, yr unig hapusrwydd gafodd yn ei bywyd oedd ‘Ffug-hapusrwydd heroin’. Twyll oedd yr hapusrwydd yma.
Mae twyllo yn arwain at dristwch yn y storïau rwy wedi darllen ac yn y ddrama Siwan hefyd. Mae Siwan yn twyllo Llywelyn. Mae’n brifo Llywelyn ac mae e’n dial. Mae Gwilym yn cael ei ladd sy’n drist iawn. Mae Non yn twyllo Jac yn ‘Pwy byth a fyddai’n fetel’ ac mae Jac hefyd yn dial...



Canolfan Peniarth
Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

**Enghreifftiau o baragraffau clo seiliedig ar Gail fu farw.**

Heb os nac oni bai roeddwn i'n mwynhau 'Hedd Wyn' yn fwy na 'Solomon a Gaenor'. Dw i'n meddwl bod Gail fu farw' yn dda i drafod tristwch a 'Pe bai'r Wyddfa i gyd yn gaws' hefyd achos mae Mam yn marw.

Ar ôl darllen a gwylio'r holl lenyddiaeth a llunyddiaeth, mae'n amlwg bod tristwch yn thema bwysig ym marn llenorion Cymru.  Mae tristwch wedi chwarae rhan bwysig yn y gorffennol, ac mae llenorion heddiw hefyd yn hoffi ysgrifennu am dristwch.

Mae llawer o gyfeiriadau at wahanol fathau o dristwch yn y testunau a ddarllenais yn ystod y cwrs.  Mae tristwch mewn sawl testun oherwydd bod pobl yn marw, er enghraifft, mae Mam yn marw yn 'Pe bai'r Wyddfa i gyd yn gaws' ac mae Hedd Wyn a Solomon yn marw yn y ddwy ffilm a astudiais i.
Ond mae rhesymau eraill dros dristwch hefyd, er enghraifft, mae Llywelyn a Jac yn drist am eu bod wedi colli cariad eu gwragedd, mae Robyn yn drist achos ei fod wedi colli cariad Wendy.  I gloi felly, hoffwn bwysleisio bod gwahanol fathau o dristwch yn y testunau a astudiais ac mae'n bwysig i ni gofio bod gwahanol resymau dros y tristwch hefyd.

Rydw i'n hoffi astudio'r gerdd yma achos mae llawer ynddi sy'n debyg ac yn wahanol i bethau eraill rydw i wedi eu darllen am y thema hon yn ystod y cwrs.  Mae llawer o bethau trist yn ein cymdeithas heddiw ac mae astudio tristwch yn y llenyddiaeth a'r llunyddiaeth wedi gwneud i fi feddwl mwy am y tristwch yn y byd heddiw, er enghraifft, pobl ifanc sy heb gartref da, fel Gail yn y gerdd hon.  Mae llawer o dristwch yn Siwan a 'Pe bai'r Wyddfa i gyd yn gaws' hefyd.



Canolfan Peniarth

Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Grid 1

| Enw'r testun | Beth? | Ble? | Pryd? | Pam? | Sut? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |



Canolfan Peniarth

Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Grid 2

| Beth? | Tebyg i beth? | Pam? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |



Canolfan Peniarth
Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Grid 3


| Beth? | Gwahanol i beth? | Pam? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |



Canolfan Peniarth

Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

**Diagram Venn**






Canolfan Peniarth

Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant


## Map Meddwl 1





Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

**Map Meddwl 2**





Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Map Meddwl 3





Canolfan Peniarth

Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

**Cyflwyniad Cyffredinol**

**Tynnu'r llinynnau at ei gilydd a dod i gasgliad**



Canolfan Peniarth

Gwaith awduro gan Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant